Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant

## GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG

Adroddiad Blynyddol 2019

OGL © Crown copyright 2019
WG39260 ISBN Digidol 978-1-83933-471-9

# Rhagair



Rwy'n falch o allu cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol cyntaf hwn ar gyfer y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant. Mae fy Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog, dan arweiniad medrus Mr David Melding, AC, wedi bod yn goruchwylio cyfeiriad strategol y rhaglen.

Rwy'n ddiolchgar am arweiniad David a'i ymrwymiad i hyrwyddo llesiant cadarnhaol a chanlyniadau cyfartal i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ledled Cymru. Mae'r ddau ohonom wedi ymgyrchu ers blynyddoedd lawer i wella hawliau plant ac rwy'n falch ein bod ni'n dal i gydweithio i wireddu ein huchelgais gyffredin.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog am eu hymrwymiad a'u gwaith rhagweithiol parhaus i gyflawni'n rhaglen waith bellgyrhaeddol. Mae'r Grŵp yn elwa o gael aelodau o bartneriaid cyflawni gwasanaethau allweddol sy'n darparu cyngor a gwaith craffu strategol hael i'r rhaglen waith. Fe welwch o'r cynnwys eang yn yr adroddiad hwn bod y rhaglen yn heriol ac rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad pawb yn fawr iawn.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynnydd da a wnaed hyd yn hyn. Er enghraifft, gyda'n gilydd rydym wedi sefydlu gwasanaethau ar ffiniau gofal ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru; rydym wedi cyflwyno'r rhaglen Adlewyrchu ledled Cymru, gan gefnogi rhieni sydd â phlentyn wedi gorfod mynd i ofal yn emosiynol ac ymarferol; rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth i eithrio pawb sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor ac wedi sefydlu Cronfa Dewi Sant i helpu i ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal wrth iddynt symud i fod yn oedolion ac yn annibynnol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys llawer o enghreifftiau ystyrlon tebyg.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio hefyd ar beth mwy y gellir ei wneud. Yn y bôn, mae angen i ni wneud gwelliannau system gyfan fel bod gwasanaethau'n cael eu darparu sy'n darparu cymorth amserol a chynnar i deuluoedd, fel eu bod yn cael eu cefnogi i aros gyda'i gilydd gyda'r nod yn y pen draw o leihau nifer y plant yn y system ofal.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi cryfhau safbwynt y Llywodraeth ymhellach drwy nodi ei ddisgwyliadau i ni leihau nifer y plant mewn gofal, lleihau nifer y plant sy’n cael eu lleoli y tu allan i’w sir a thu allan i Gymru a lleihau nifer y plant sy’n cael eu cymryd oddi ar rieni ag anabledd dysgu. Rydym wedi bod yn gweithio’n agos ac yn gyflym gydag awdurdodau lleol i gyd-gynhyrchu cynlluniau wedi’u targedu i weithredu’r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar gyd-destun lleol.

Rwy’n siŵr y bydd darllenwyr yr adroddiad hwn eisoes yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi addo i wella canlyniadau i blant sydd wedi bod mewn gofal. Rydym wedi disgrifio’n gweledigaeth yn ein strategaeth genedlaethol - *Symud Cymru Ymlaen* ac yn *Ffyniant i Bawb,* ein rhaglen ar gyfer Llywodraethu. Mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet a minnau’n ymrwymedig i wneud popeth a allwn ar draws ein portffolios i sicrhau gwelliannau.

Yn olaf, ac yn bwysicaf, alla i ddiolch i’r plant a’r bobl ifanc sydd wedi cyfrannu at y rhaglen waith hon. Chi yw’r bobl bwysicaf ac mae’n fraint gweithio gyda chi; gobeithio eich bod yn teimlo ein bod yn gwrando arnoch chi. Diolch o galon i Dan Pitt, Dirprwy Gadeirydd Grŵp Cynghori’r Gweinidog. Mae gan Dan brofiad o fod mewn gofal ac mae wedi cynnig ei farn, doethineb, dealltwriaeth a’i safbwynt yn fedrus mewn cyfarfodydd ac wrth gyflawni gwaith. Mae Dan wedi bod yn gymorth mawr wrth godi ymwybyddiaeth o wella lles meddyliol. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi ac rwy’n gwybod eich bod yn ysbrydoli llawer.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr Adroddiad Blynyddol hwn ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda’n partneriaid fel y gallwn wneud ein gorau i bob plentyn a pherson ifanc sydd wedi bod mewn gofal yng Nghymru.

Julie Morgan

Julie Morgan AC

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant wedi bod ar waith ers dros dair blynedd. Yn yr amser hwnnw mae wedi nodi amrywiaeth o arferion gorau, wedi mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth, a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut i weithredu ei blaenoriaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae ei aelodau ymroddgar yn dod o ystod eang iawn o randdeiliaid ac mae'r Grŵp wedi gallu gweithio'n drylwyr gan ei fod yn derbyn cymorth hanfodol gan swyddogion.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu datganiad cyhoeddus ar gynnydd hyd yn hyn, y rhwystrau a'r heriau sydd angen mynd i'r afael â nhw, a rhywfaint o ddata perfformiad fel y gellir craffu'n llawnach ar ein gwaith. Mae'n cyflawni un o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Nid oes amheuaeth bod llawer o waith i'w wneud eto i sicrhau mai dim ond y rhai y mae angen iddynt fynd i ofal sy'n cael eu cymryd oddi wrth eu teuluoedd, a bod digon o gymorth yn cael ei roi i deuluoedd ar ffiniau gofal. Byddai sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ymarfer a'r adnoddau sy'n cyd-fynd â hynny yn arwain hefyd at wella safonau'r gofal a ddarperir i'r plant a'r bobl ifanc sydd angen bod mewn gofal.

Mae'n fraint, fel AC yr wrthblaid, cael cadeirio Grŵp Cynghori'r Gweinidog ac i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru. Ni dderbyniodd unrhyw gadeirydd gymorth cystal ag rwy'n ei dderbyn gan y dirprwy gadeirydd - Dan Pitt o Voices from Care a rheolwr newid y Grŵp Phil Evans, cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg.

Byddem yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau ac awgrymiadau am yr Adroddiad Blynyddol hwn wrth i ni symud tuag at gamau olaf y tymor hwn o'r Cynulliad.



David Melding AC

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........................................ **5**

## Ein Blaenoriaethau Cyfredol

**1. Lleihau nifer y plant sydd angen gofal mewn ffordd ddiogel** ........................................ **7**

Beth yw’r cefndir? ........................................

Beth ydym wedi’i wneud i ymateb? ........................................

Beth yw’r heriau mwyaf ar hyn o bryd? ........................................

**2. Sicrhau opsiynau digonol ar gyfer lleoliadau o ansawdd uchel i blant sy’n derbyn gofal neu’n gadael gofal** ........................................ **13**

Beth yw’r cefndir? ........................................

Beth ydym wedi’i wneud i ymateb? ........................................

a. Addysg a Sgiliau ........................................

b. Iechyd Emosiynol a Meddyliol ........................................

c. Lleoliadau ........................................

Beth yw’r heriau mwyaf ar hyn o bryd? ........................................

**3. Cefnogi plant sy’n derbyn gofal i gael y daith orau bosibl trwy ofal ac i fywyd fel oedolion** ........................................ **24**

Beth yw’r cefndir? ........................................

Beth ydym wedi’i wneud i ymateb? ........................................

Beth yw’r heriau mwyaf? ........................................

Beth sydd wedi bod yn digwydd? Dangosyddion a Gwybodaeth ........................................ **25**

# Cyflwyniad

Mae ein gwefan newydd ar gyfer ymarferwyr a'r cyhoedd wedi'i lansio. Mae'n cael ei gweinyddu gan Gofal Cymdeithasol Cymru (hiips://gofalcymdeithasol.cymru/gwella -gwasanaethau/rhaglen-gwella-canlyniadau-i-blant). Mae peth o'r deunydd a welwch fel arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i gyflwyno mewn fformat hygyrch yma. Mae'r wefan yn cynnwys dogfen fer, *Canllaw i Grŵp Cynghori'r Gweinidog*, sy'n egluro'r sail ar gyfer gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog, pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud.

Am y rheswm hwn, bu'n bosibl i ni lunio adroddiad ar ffurf syml sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu, yn seiliedig ar ein tair prif ffrwd waith. Mae pob adran yn rhannu fformat cyffredin:

- a Beth yw'r cefndir?
- b Beth ydym ni wedi'i wneud i ymateb?
- c Beth yw'r heriau mwyaf ar hyn o bryd?

Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog a'r Tîm Gwella Canlyniadau i Blant yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyflawni cyfrifoldeb cyfunol i sicrhau newid, yn gyflym gan gael cymaint o effaith â phosibl. Fel mae'r adroddiad yn ei ddangos, mae hyn yn golygu ymgymryd â phob math o weithgareddau amrywiol – comisiynu ymchwil, defnyddio arbenigedd proffesiynol, helpu i lunio polisi yna gweithredu diwygiadau ar bob lefel (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol).

Cafwyd llawer o lwyddiannau. Drwy'n rhaglen waith, rydym wedi helpu i hyrwyddo datblygiadau newydd sylweddol gyda'r pwyslais drwyddo draw ar gyd-gynhyrchu gwasanaethau ymatebol ac arloesol sy'n gwella canlyniadau. Wrth gwrs, mae yna lawer o heriau sy'n rhaid eu hwynebu hefyd ac mae'r adroddiad yn eu nodi. Er enghraifft, mae'n rhaid i ni wneud mwy i sicrhau bod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd fwy o lais i ganfod eu hatebion eu hunain, wrth gynllunio gwasanaethau ac wrth helpu i'w darparu. Mae'n rhaid i ni helpu i sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc a'u teuluoedd yn cael ei glywed a'i ystyried i wella gwasanaethau. Dylai'r ffocws fod ar wneud newidiadau mewn ymarfer ac mewn systemau i'r un graddau ag ar ddatblygu polisi.

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn ceisio sicrhau bod ein hymrwymiad i ddilyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn amlwg a thryloyw ym mhopeth a wnawn. Mae'r rhaglen waith Gwella Canlyniadau i Blant wedi'i chynllunio i gynnwys y gofynion hyn a gofynion Safonau

Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Mae Dirprwy Gadeirydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn oedolyn ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac mae ei ddylanwad wedi bod yn sylweddol. Dan a ysbrydolodd y prosiect *Gwrando. Gweithredu. Ffynnu*, a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Roedd yn adolygu sut mae iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn cael ei asesu ar hyn o bryd ac yn gwneud argymhellion arwyddocaol ar gyfer gweithredu sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen waith. Roedd pobl ifanc oedd wedi bod mewn gofal yn rhan o bob cam - grwpiau ffocws i ganfod barn; adborth ac ymgynghori ar argymhellion; ac yn y digwyddiad lansio.

Rydym yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys yn ein gwaith cymaint â phosibl. Er enghraifft, mae prosiect peilot (a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'i gefnogi gan Gomisiynydd Plant Cymru) wedi galluogi chwe awdurdod lleol yng Nghymru i ddefnyddio arolwg *'Your Life Your Care' Bright Spots* i ganfod beth sy'n bwysig i blant sydd wedi bod mewn gofal ac i helpu i ddylanwadu ar welliannau i'r ffordd mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu. Mae awdurdodau lleol yn ceisio:

- gwella'r profiad gofal i'r holl blant sy'n derbyn gofal;
- rhoi llais i blant am eu lles eu hunain;
- tynnu sylw at rinweddau ymarfer sy'n cyfrannu at blant yn ffynnu mewn gofal.

Cafwyd canfyddiadau pwysig o'r arolygon a ddefnyddiwyd gyda 686 o blant a phobl ifanc mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru wedi setlo yn eu lleoliadau ac yn hapus gyda'u bywydau'n gyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd 36% o blant (4-7 oed) yn deall pam oeddynt mewn gofal. Roedd tua chwarter y plant a'r bobl ifanc am gael cysylltiad amlach â rhiant – tra'r oedd bron i un o bob pump (19%) o bobl ifanc (11-18 oed) a 15% o blant (8-10 oed) heb gysylltiad o gwbl â'r naill riant na'r llall. Roedd traean o bobl ifanc (11-18 oed) yn teimlo nad oeddynt yn cael digon o gysylltiad â'u brodyr a'u chwiorydd. Roedd chwarter y bobl ifanc (11-18 oed) wedi cael tri neu fwy o weithwyr cymdeithasol mewn blwyddyn. Mae arolwg plant yn cael ei gomisiynu ar lefel genedlaethol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith perfformiad plant.

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi cefnogi'r penderfyniad i weithredu'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac i fabwysiadu'r Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol/nod barcud newydd. Gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ym mhob rhanbarth yn awr yn unol â'r Dull Cenedlaethol ac yn hyrwyddo'r 'cynnig gweithredol', i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi a'u cefnogi i fynegi dewis a (lle bo'n bosibl a phriodol) chael rheolaeth dros y penderfyniadau a wneir a'r cymorth maent yn ei dderbyn. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau ar rôl, swyddogaeth, statws a chylch gwaith y Swyddogion Adolygu Annibynnol sy'n helpu i reoli'r broses gynllunio ac adolygu i'r holl blant sydd mewn gofal.

## EIN BLAENORIAETHAU CYFREDOL

# 1. Lleihau nifer y plant sydd angen gofal mewn ffordd ddiogel

## Beth yw’r cefndir?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pwysleisio sut y dylem gefnogi teuluoedd i aros gyda’i gilydd, pan fo hyn yn ddiogel ac er lles gorau’r plentyn. I blant a phobl ifanc, mae hyn yn golygu:


- nodi ac asesu’r plant hynny sydd angen gofal a chymorth (yn cynnwys cymorth i gyflawni lles a gwydnwch emosiynol) cyn gynted â phosibl
- eu helpu i ddefnyddio cryfderau eu teuluoedd ac adnoddau eu cymunedau fel cymorth
- sicrhau ymyrraeth cyn i anghenion fynd yn ddifrifol.

Fodd bynnag, mae gan Gymru rai o’r cyfraddau uchaf o blant sy’n derbyn gofal yn y DU ac mae amrywiadau mawr rhwng cyfraddau awdurdodau lleol gwahanol. Mae nifer o adroddiadau arwyddocaol wedi’u cwblhau ynglŷn â’r cynnydd yn nifer y plant mewn gofal.

Comisiynwyd cwmni Cordis Bright gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud gwaith ymchwil yn ymwneud â’r gwahaniaethau rhwng niferoedd y plant sy’n derbyn gofal mewn pum awdurdod lleol yng Nghymru. Cyhoeddwyd canfyddiadau’r gwaith ymchwil yn 2013, a nodwyd y gellid priodoli rhywfaint o’r amrywiant yn niferoedd a chyfraddau plant sy’n derbyn gofal i’r gwahaniaethau rhwng proffil demograffig ac economaidd-gymdeithasol pob awdurdod lleol. Fodd bynnag, nododd y canfyddiadau fod y ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol ond yn egluro’r gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol yn rhannol. Roedd y ffactorau eraill sy’n effeithio ar niferoedd a chyfraddau plant sy’n derbyn gofal yn ymwneud â materion y gellir eu rheoli i raddau mwy gan yr awdurdod lleol a’i bartneriaid, yn enwedig sut mae ardaloedd lleol yn arwain, yn trefnu ac yn defnyddio eu hadnoddau a’u gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd sy’n agored i niwed.

**Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru bapur briffio ym mis Mawrth 2019 sy'n ceisio egluro pam mae cyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn uchel yng Nghymru**[1]. Mae'r papur yn ceisio mesur effaith y ffactorau canlynol ar lefel genedlaethol a lleol:

- amddifadedd;
- effeithiau'r 'tri sbardun' (cam-drin domestig, rhieni'n camddefnyddio sylweddau a salwch meddwl rhieni) ar allu ac adnoddau rhianta;
- gwahaniaethau mewn polisi ac ymarfer rhwng awdurdodau lleol, yn cynnwys y dull o ddarparu gofal a chymorth;
- penderfyniadau a wneir mewn llysoedd teulu.




(a) Ac eithrio plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau tymor byr.
(r) Diwygiwyd y data ers y cyhoeddiad diwethaf.

Ffynhonnell: SSDA903; Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal

[1] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru *Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru*: hiips://www.wcpp.org.uk/wp - content/uploads/2019/05/CYM-190725-Analysis-of-Factors-Contributing-to-High-Rates-of-Care-REVISED.pdf

**Cadarnhaodd yr *Adolygiad o'r Argyfwng Gofal,* a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yr ymdeimlad o argyfwng roedd llawer o bobl ifanc, teuluoedd a'r rhai sy'n gweithio yn y system yn ei deimlo oherwydd defnydd cynyddol o achosion llys[2]**. Yng Nghymru a Lloegr, cyrhaeddodd nifer y ceisiadau gorchymyn llys y lefelau uchaf erioed yn 2017 ac roedd nifer y plant oedd yn derbyn gofal ar ei uchaf ers pasio Deddf Plant 1989. Mae nifer y plant mewn gofal wedi bod yn codi'n gyson ers dechrau'r 1990au, ac eithrio cyfnod yn Lloegr ganol y 2000au. Mae pobl allweddol yn y sector cyfiawnder teuluol a'r sector gofal cymdeithasol plant wedi bod yn mynegi pryder bod y system ofal dan bwysau. Maent yn tynnu sylw at:

- y nifer cynyddol o deuluoedd sy'n wynebu straen tlodi;
- yr angen i helpu pobl yng nghyfnodau cynnar anawsterau teuluol i atal problemau rhag gwaethygu ac i gefnogi plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

**Mae adroddiadau fel yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal yn gweld lle i fod yn obeithiol hefyd**. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'i hegwyddorion sylfaenol yn cael eu hystyried yn rhai cadarn. Mae rhai awdurdodau lleol yn mynd yn groes i'r tueddiadau cenedlaethol o gynnydd mewn niferoedd ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol i safon uchel. **Mae yna ddatblygiadau cyffrous ar bob lefel mewn polisi, ymarfer a datblygu gwasanaethau, llawer ohonynt yng Nghymru.** Fel y dangosir nesaf yn yr adroddiad hwn, mae aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi bod yn rhan o rai o'r mentrau sy'n helpu i gefnogi teuluoedd agored i niwed sydd ar ffiniau gofal, pan fo'n ddiogel a phriodol gwneud hynny, gan ddod o hyd i adnoddau ychwanegol. Bydd hyn yn helpu i leihau niferoedd y plant mewn gofal ac yn rhyddhau adnoddau mewn awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar weithredu ataliol a gwell cymorth i blant sydd mewn gofal.

**Er gwaetha'r adroddiadau hyn, eu canfyddiadau a'u hargymhellion, mae nifer y plant mewn gofal yng Nghymru yn parhau i dyfu.** Dyna pam mae Prif Weinidog Cymru wedi nodi bod y nifer cynyddol o blant mewn gofal yn faes blaenoriaeth. **Mae'n credu'n bendant bod gormod o blant yn cael eu cymryd oddi ar eu teuluoedd i'r system ofal ac mae wedi pennu'r nodau polisi canlynol.**

- **Lleihau nifer y plant mewn gofal.**
- **Lleihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w sir.**
- **Lleihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru.**
- **Lleihau nifer y plant sy'n cael eu cymryd oddi ar rieni ag anabledd dysgu.**

[2] The Care Crisis Review: *Factors contributing to national increases in the numbers of looked after children and applications for care orders*: hiips://www.frg.org.uk/images/Care_Crisis/Care -Crisis-Review-Factors-report-FINAL.pdf

Mae'r blaenoriaethau hyn yn gyson â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – erthyglau 3 (budd pennaf), 9 (gwahanu oddi wrth rieni) a 18 (cefnogi rhieni i fagu eu plentyn).

## Beth ydym ni wedi'i wneud i ymateb?


**I gadarnhau symudiadau tuag at fwy o atal, gwirfoddolodd aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog eu hamser i gynnal Ymchwiliad Gwerthfawrogol mewn chwe awdurdod lleol ledled Cymru. Roedd yr Ymchwiliad yn ceisio nodi dulliau effeithiol o gefnogi teuluoedd a strategaethau ar gyfer rheoli risg sy'n helpu i leihau niferoedd plant sydd angen gofal mewn ffordd ddiogel[3].**

**Mae canfyddiadau'r Ymchwiliad wedi bod yn ddefnyddiol i benderfynu sut mae Llywodraeth Cymru'n darparu buddsoddiad yn y dyfodol i gryfhau cymorth ar gyfer teuluoedd agored i niwed y mae eu plant mewn perygl o fynd i'r system ofal a darparu gwasanaethau therapiwtig ychwanegol[4].** Mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn y gymuned yn cyflawni rôl hanfodol hefyd i helpu i ail-uno teuluoedd a helpu plant a phobl ifanc i adael gofal. Ers 2017/18, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £9 miliwn i ehangu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar awdurdodau lleol. Defnyddiwyd cyfran sylweddol o'r arian hwn i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno gwasanaethau ar ffiniau gofal. O fis Ebrill, darparwyd £15 miliwn o fuddsoddiad pellach dros ddwy flynedd drwy'r Gronfa Gofal Integredig i helpu i leihau'r angen am ofal a gwasanaethau therapiwtig mwy dwys. Mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r grant hwn yn cynnwys capasiti ychwanegol ar gyfer cynadleddau teuluoedd ac ail-uno teuluoedd**. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi bod yn allweddol yn cynghori ar sut y bydd arian newydd yn cael ei dargedu at feysydd â'r flaenoriaeth uchaf.**

---

[3] Grŵp Cynghori'r Gweinidog, Rhagfyr 2018*:Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd mewn Chwe Awdurdod Lleol*

[4] Grŵp Cynghori'r Gweinidog *Lleihau nifer y plant sydd angen gofal*: hiips://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019 -08/lleihau-nifer-y-plant-sydd-angen-gofal.pdf a hiips://gov.wales/sites/default/files/publications/2019 -08/reducing-the-number-of-children-in-need-of-care.pdf




**Mae prosiect Adlewyrchu wedi’i weithredu ledled Cymru i leihau nifer y plant sy’n mynd i ofal drwy dorri cylch beichiogrwydd ailadroddus ac achosion gofal ailadroddus.** Mae rhieni’n cael eu hannog i ddeall eu gorffennol, i weithio gyda’u presennol ac i gyflawni eu nodau at y dyfodol. Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi gofalwyr sy'n berthnasau’n cael eu cryfhau trwy gyd-gynhyrchu canllaw gofal gan berthnasau gyda chyllid gan Blant yng Nghymru. **Cefnogodd Grŵp Cynghori’r Gweinidog y datblygiad hwn a’r broses ymgynghori ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarchodaeth arbennig, yn cynnwys meini prawf cymhwysedd cyffredin ar gyfer cymorth ariannol a chymorth arall.**

**Mewn ymateb i flaenoriaethau’r Prif Weinidog, datblygodd Llywodraeth Cymru a phartneriaid ddull ‘Disgwyliadau Lleihau’ i helpu awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer lleihau nifer y plant sydd wedi bod mewn gofal.** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru ar yr agenda hon. O dan arweiniad Cadeirydd Annibynnol a chefnogaeth swyddogion y llywodraeth, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob awdurdod lleol i drafod sut maent yn rheoli eu gwasanaeth, eu dull o reoli risg a sut maent yn goruchwylio mynediad i ofal a gadael gofal. Bu swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu templed adrodd lle gallent egluro

eu cynlluniau disgwyliadau lleihau pwrpasol eu hunain, wedi'u teilwra i'w poblogaethau a'u demograffeg. **Bydd cynlluniau disgwyliadau lleihau'n cwmpasu tair blynedd, gyda ffigurau disgwyliedig yn cael eu nodi ar gyfer pob blwyddyn o 2019 i 2022.**

## Beth yw'r heriau mwyaf ar hyn o bryd?

Mae yna themâu cyson yn datblygu o'r gwaith hwn. **Mae'n amlwg bod y system plant sy'n derbyn gofal o dan bwysau cyffredinol. Mae amddifadedd a chyni yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal, ond mae ffactorau eraill ar waith hefyd. Mae ffactorau allweddol eraill yn berthnasol, gan gynnwys y modelau busnes gwahanol sy'n cael eu mabwysiadu, arferion gwahanol o ddarparu gwasanaethau a chysylltiadau â phartneriaid allweddol. Mae'n syniad da datblygu system cefnogaeth gan gymheiriaid sy'n rhoi cyfle i sefydliadau ddysgu oddi wrth ei gilydd ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio a hwyluso trafodaethau er mwyn datrys heriau.**

**Mewn rhai ardaloedd, mae gwasanaethau plant yn cael eu heffeithio'n andwyol gan broblemau gweithlu a llwyth gwaith a achosir gan broblemau recriwtio a chadw staff. Gyda chymorth Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant wedi gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o annog ymarfer sy'n canolbwyntio ar anghenion plant a gwella canlyniadau iddynt.** Er enghraifft, penodwyd hyrwyddwyr a mentoriaid ym mhob ardal awdurdod lleol i helpu staff ar y rheng flaen i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i'r dull hwn fod yn effeithiol. **O ganlyniad, mae Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, mewn partneriaeth â'r GIG a llywodraeth leol, y sectorau gwirfoddol ac annibynnol yn ogystal â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr addysg yn datblygu'r strategaeth gyntaf ar gyfer y gweithlu eleni.**

Yn ogystal, dyrannwyd cyllid i'r Rhwydwaith Maethu i ddarparu *Fostering Well-being*, rhaglen beilot sydd â'r nod o brofi a gwerthuso egwyddorion addysgeg gymdeithasol mewn amgylchedd gofal maeth. Mae'r rhaglen beilot wedi bob yn llwyddiannus a bydd yn cael ei ehangu i ranbarthau eraill ledled Cymru.

**Yr unig ffordd o fynd i'r afael â llawer o ffactorau eraill sy'n sbarduno'r angen am wasanaethau gofal a chymorth i deuluoedd yw trwy newid y system gyfan ledled gwasanaethau cyhoeddus a thu hwnt.** Ceir cydnabyddiaeth eang bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, fel cam-drin corfforol ac emosiynol neu fod mewn cartref lle mae yna gam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, rhieni'n gwahanu neu salwch meddwl yn gallu cael effaith negyddol ar ddatblygiad plentyn. Fel mae adroddiad yr Ymchwiliad Gwerthfawrogol yn ei ddatgan, gall effaith profiadau o'r fath barhau am amser maith ar ôl iddynt ddigwydd, yn aml gyda chanlyniadau difrifol iawn a chyda goblygiadau amlwg i wasanaethau amddiffyn plant. Mae lleihau nifer y profiadau niweidiol y mae plant yng Nghymru yn eu dioddef yn ysgogydd allweddol i greu cenedlaethau iachach a hapusach yn y dyfodol. Mae

deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu gwydnwch a darparu cymorth sy'n helpu i feithrin hynny yn ffactorau allweddol wrth helpu i leihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

# 2. Sicrhau opsiynau digonol ar gyfer lleoliadau o ansawdd uchel i blant sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal

Dangosodd y gwaith ymchwil diweddaraf gan y **Sefydliad Gofal Cyhoeddus**, y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn, y bydd cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal:

- ag anabledd cydnabyddedig neu anhwylder ymlyniad wedi'i ddiagnosio neu ddatganiad o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol;
- yn cael llai o gyfle i gyflawni cymwysterau addysgol da;
- â mwy o anghenion iechyd, lles a thai pan fyddant yn oedolion;
- yn fwy tebygol o gamddefnyddio sylweddau;
- â phroblemau ymddygiad sy'n deillio o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod;
- yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Dangosodd ymchwil y Sefydliad Gofal Cyhoeddus fod gan 71% o'r plant yn eu sampl ganlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol ar ôl 4-5 mlynedd, gyda lleoliadau sefydlog ac addysg dda. Fodd bynnag, roedd gan lawer o'r plant hyn angehnion cymorth addysg, iechyd a lles o hyd.

## Beth yw'r cefndir?

**Fel Rhieni Corfforaethol i blant sydd wedi bod mewn gofal, dylai aelodau etholedig a swyddogion o bob awdurdod lleol (yn cynnwys addysg a thai) sicrhau eu bod yn darparu ansawdd gofal a fyddai'n ddigon da i'w plant eu hunain**. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw eu cadw'n ddiogel, sicrhau bod eu profiadau mewn gofal yn gadarnhaol, a gwella eu gallu i gael cyfleoedd a fydd yn eu helpu i lwyddo mewn bywyd. Mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu gwaith i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn cael y gwasanaethau a'r cymorth priodol fel y gallant fwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill cymaint â phosibl.

## Beth ydym wedi'i wneud i ymateb?

**Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhianta Corfforaethol wedi'i ailsefydlu i edrych ar ffyrdd o gryfhau rhianta corfforaethol ledled gwasanaethau cyhoeddus. Er bod awdurdodau lleol yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau tuag at blant sydd wedi bod mewn gofal, bydd y Grŵp yn ystyried beth mae rhianta corfforaethol yn ei olygu i sefydliadau eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn ystyried datblygiadau diweddar mewn awdurdodau lleol sydd wedi'u bwriadu i wella'r 'cynnig' neu'r addewid' a wnânt i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.** Gall y cynnig newydd gwmpasu meysydd fel cyngor a chymorth; llesiant; dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth; diogelu rhag niwed; tyfu i fyny; cael llais a chynhwysiant. Mae Voices from Care Cymru, ac AFA Cymru, wedi bod yn gweithio i feincnodi arferion da mewn rhianta corfforaethol ac i ystyried a all pobl ifanc ddatblygu nod barcud i sicrhau ansawdd y strategaethau rhianta corfforaethol sy'n cael eu mabwysiadu gan awdurdod lleol.

### a. Addysg a Sgiliau


**Cryfhaodd y gyd-strategaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol tair blynedd, *Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru,* y trefniadau i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal drwy sicrhau gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu fel dysgwyr ym myd addysg a thrwy nodi sut y gall gwasanaethau cymdeithasol ac addysg gydweithio i sicrhau canlyniadau gwell.** Ers i'r strategaeth ddod i ben yn gynharach eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gyd-gynhyrchu cynllun gweithredu strategol i wella cyrhaeddiad addysgol a phrofiad plant sy'n derbyn gofal. Cynhaliwyd digwyddiadau gyda phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal a gweithwyr proffesiynol i gyd-gynhyrchu'r Cynllun.

Bydd y Grant Datblygu Disgyblion yn parhau am weddill y tymor hwn o'r Cynulliad. Drwy'r trefniadau grant hyn, mae consortia addysg rhanbarthol yn derbyn £5 miliwn y flwyddyn i ddarparu cymorth addysgol i blant sy'n derbyn gofal. Dylai rhianta da gan y wladwriaeth ddarparu sylfaen gadarn i unigolion dyfu. Mae hyn yn gofyn am sefydlogrwydd, diogelwch ac ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Dim ond pan mae yna weithio traws-lywodraeth effeithiol yn digwydd ar draws y sector cyhoeddus cyfan, gyda phob asiantaeth yn cymryd perchnogaeth o'u cyfrifoldebau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal fel busnes craidd y gallwn obeithio cyflawni'r safonau hyn. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn derbyn yr un cyfleoedd addysg â'u cyfoedion.

Yn 2019, estynnwyd y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i gyfyngu i helpu i dalu am wisg ysgol; bydd yn cefnogi dyhead, cyfoethogi diwylliannol, llesiant a chydnerthedd. Bydd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn cefnogi cyfleoedd fel helpu i brynu gwisg ysgol neu gael gafael ar y dillad neu'r cyfarpar priodol fel bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn eu hoff chwaraeon neu weithgareddau y tu mewn neu'r tu allan i'r ysgol.

## b. Iechyd Emosiynol a Meddyliol

**Problemau Emosiynol a Meddyliol a allai effeithio ar Blant sydd wedi bod mewn Gofal**




**Mae Erthygl 24 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi'r hawl i blant gael yr iechyd gorau posibl. Yn rhannol oherwydd profiadau bywyd cynnar, mae plant sydd wedi bod mewn gofal yn fwy tebygol o gael iechyd meddyliol ac emosiynol gwael.** Roedd adran flaenorol yr adroddiad hwn yn disgrifio sut mae effeithiau cam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol neu gysylltiad â cham-drin domestig, rhieni'n gwahanu neu salwch meddwl yn ddwys ac yn hirdymor. Gall darparu'r lefel gywir o gymorth, yn cynnwys cymorth therapiwtig, leihau'r trawma emosiynol a achosir gan effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac anfanteision eraill**. Fodd bynnag, gall fod yn anodd iawn cael gafael ar y cymorth priodol ar yr**

**adeg briodol oherwydd trothwyon ar gyfer gwasanaethau arbenigol.** Nid oes gan bob rhiant maeth, athro, gweithiwr preswyl neu weithiwr cymdeithasol y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddarparu cymorth priodol.

**Ar ran Grŵp Cynghori'r Gweinidog, bu'r NSPCC a Voices from Care Cymru yn ymgynghori â phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ynglŷn â'r cymorth ar gyfer eu hiechyd emosiynol a meddyliol. Lansiwyd eu hadroddiad, *Gwrando. Gweithredu. Ffynnu,* mewn digwyddiad a fynychwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhannwyd yr argymhellion â Grŵp Cynghori'r Gweinidog.**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi llawer i wella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad newydd o £15 miliwn ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau cymorth therapiwtig.** Mae hefyd yn buddsoddi £2.5 miliwn i ddatblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu sy'n helpu plant wedi'u mabwysiadu sydd angen rhyw ffurf o gymorth emosiynol ond efallai nid y gwasanaeth arbenigol a ddarperir gan CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed).

## c. Lleoliadau

**Mae lleoliadau sefydlog yn hanfodol i ddarparu teimlad o berthyn a diogelwch i blant mewn gofal - un o'r ffactorau allweddol ar gyfer gwell cyfleoedd mewn bywyd a gwell cyrhaeddiad addysgol.** I blant sydd eisoes mewn gofal, mae hyn yn golygu gwneud pob ymdrech i ail-uno teuluoedd lle bo'n briodol, er lles y plentyn a phan mae'n ddiogel gwneud hynny. **Mae tystiolaeth gref yn dangos ei bod hi'n dod yn anoddach i baru plant â lleoliadau priodol ar draws yr ystod o opsiynau fel maethu, mabwysiadau a gofal preswyl. Defnyddiwyd y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant mewn ystod eang o fentrau gan y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol i wella'r dewis o leoliadau, eu hansawdd a'u sefydlogrwydd.**


### i. Maethu

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys noddi'r **Fframwaith Maethu Cenedlaethol,** sy'n gydweithrediad rhwng gweithwyr a sefydliadau maethu proffesiynol o bob cwr o Gymru. Maethu yw'r brif ffynhonnell ofal i'r plant mwyaf agored i niwed, gan ddarparu lleoliadau i dros ddwy ran o dair o'r holl blant sy'n derbyn gofal. Mae gofal maeth yn rôl fedrus ac amrywiol sy'n cael ei chyflawni gyda phlant o bob oed, o fabanod newydd-anedig i oedolion ifanc. Mae rhai plant yn derbyn gofal am gyfnod byr cyn dychwelyd adref neu symud ymlaen i opsiynau sefydlogrwydd eraill; mae eraill yn aros mewn gofal maeth am gyfnodau hirach, rhai gydol eu plentyndod. Mae rhai gofalwyr yn darparu gofal i blant ar sail gyffredinol tra bod eraill (gofalwyr sy'n berthnasau) yn gofalu am blant sy'n rhan o'u teulu estynedig.

**O ystyried lefel y newid sydd ei angen a'r materion cymhleth sydd angen eu datrys, cam cyntaf y Fframwaith Maethu Cenedlaethol oedd cwmpasu model swyddogaethol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n maethu yng Nghymru sy'n gallu gweithredu ar lefel leol, ranbarthol a Chymru gyfan. Yna aethpwyd ati i ddatblygu rhaglen weithredu dair blynedd ar gyfer y model hwn a gwelliannau eraill y cytunwyd arnynt.** Mae hyn wedi galluogi gwasanaethau i elwa ar gyfleoedd gweithio ar raddfa fwy (mwy o gyfeiriad strategol, cydweithredu gwell, rhannu adnoddau, sicrhau cysondeb) heb golli manteision yr elfen leol (diwallu anghenion penodol ardaloedd unigol, atebolrwydd cryf, cysylltiadau uniongyrchol ag ymarfer). Mae awdurdodau lleol a rhanbarthau hefyd wedi bod yn gwneud ymdrechion sylweddol i wella:

- nifer yr ymholiadau i faethu sy'n dod yn ofalwyr cymeradwyedig (mae hyn yn cynnwys symud tuag at ddull rhanbarthol o ymdrin ag ymholiadau cychwynnol);
- ansawdd y gwasanaeth mae ymgeiswyr yn ei dderbyn gydol proses asesu gofal maeth;
- y cyfleoedd dysgu a datblygu y mae gofalwyr maeth cymeradwyedig yn eu derbyn;
- y 'cynnig' cyffredinol mae gofalwyr maeth yn ei dderbyn trwy fod yn ofalwr maeth awdurdod lleol (yn cynnwys gostyngiadau yn y Dreth Gyngor; mynediad ar-lein i'r llawlyfr gofal maeth ac i slipiau talu gofal maeth; parcio am ddim yng nghanol trefi; mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden i'r teulu maeth cyfan).

## Cyflawniadau'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol




### ii. Mabwysiadu

**Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru yn gydweithrediaeth arloesol, sy'n dwyn ynghyd holl wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol mewn strwythur tair haen.** Ar lefel ranbarthol, mae awdurdodau lleol yn cydweithio o fewn pum cydweithrediaeth ranbarthol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob cydweithrediaeth gysylltiadau â'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg. Maent i gyd yn darparu swyddogaethau asiantaeth fabwysiadu i blant, yn recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, cynnig cwnsela i rieni biolegol a chyngor i oedolion sydd wedi'u mabwysiadu. Yn genedlaethol, mae'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a thîm canolog bach, a gynhelir gan Gyngor Dinas Caerdydd ar ran pob awdurdod lleol, yn ysgogi gwelliannau, sicrhau cysondeb a chydweithredu.

- **Mae aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi bod yn allweddol yn datblygu capasiti'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ddiwallu'r angen am leoliadau ac i gyflwyno model cenedlaethol o gymorth mabwysiadu.** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £2.3 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol yn 2019/20 i helpu i gryfhau darpariaeth fabwysiadu i atal plant rhag mynd yn ôl i ofal a lleihau'r amser maent yn ei dreulio yn disgwyl i adael gofal drwy fabwysiadu. Mae trefniadau newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer gwaith cyn cymeradwyo gyda mabwysiadwyr ac asesiadau ar ôl mabwysiadu. Mae'r Cydweithrediaethau Rhanbarthol yn gweithio gyda phartneriaid asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol i gyflwyno cynlluniau recriwtio mabwysiadwyr arbenigol (fel Adopting Together) i ddiwallu anghenion lleoliadau grwpiau o frodyr a chwiorydd, plant hŷn a phlant ag anghenion cymhleth ychwanegol. Mae Cofrestr Fabwysiadu newydd wedi'i lansio. Daeth Cyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) (Diwygio) 2019 i rym yn ddiweddar, gan nodi bod angen i blant sy'n aros am leoliad mabwysiadu a darpar fabwysiadwyr cymeradwy ledled Cymru gael eu cynnwys yng Nghofrestr Mabwysiadu Cymru o fewn mis. Bydd hyn yn cyflynu'r broses o baru plant â darpar fabwysiadwyr, gan olygu bod plant yn aros am lai o amser i gael eu lleoli.

Darparwyd adnoddau i gynyddu'r graddau y mae plant sydd wedi'u mabwysiadu wedi derbyn eu deunydd taith bywyd. Mae hon yn elfen allweddol o ran darparu ffordd iddynt ddeall eu hanes a'u cefndir; mae'r ffigurau wedi gwella'n sylweddol.

Sefydlwyd TESSA – gwasanaeth cymorth addysg therapiwtig ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru tua dechrau 2019 gan ddefnyddio arian Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae cyfran o fuddsoddiad £2.3 miliwn Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yn cael ei defnyddio i wella'r gwasanaeth hwn er mwyn darparu'r canlynol:

- Canolbwyntio ar gymorth ac ymyrraeth gynnar cyn gynted ag y mynegir pryderon am blentyn yn ymgartrefu
- Asesiadau seicolegol proffesiynol ar gyfer plant, gan rannu gwybodaeth â rhieni a staff cymorth eraill
- Cymorth rhianta therapiwtig
- Cymorth partneriaid rhieni parhaus.

### iii. Gofal Preswyl

Mae plant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol, ac sydd angen gofal a chymorth mewn lleoliad preswyl yn cael eu rhoi mewn cartrefi plant fel arfer sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. **Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi bod yn cyfarfod i ddatblygu a gorchwylio'r rhaglen waith sydd ei hangen i ymdrin â materion amrywiol yn ymwneud â pha mor dda mae'r trefniadau**

**cyfredol yn gwasanaethu plant a phobl ifanc.** Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio i ymdrin â'r ffaith nad yw awdurdodau lleol eisiau neu angen comisiynu modelau gofal, ansawdd a lleoliad gwasanaethau preswyl o reidrwydd i gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

**Comisiynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen waith ymchwil i wella'n dealltwriaeth o nodweddion plant a phobl ifanc o Gymru sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau preswyl**. Comisiynwyd Wales Data Cymru i greu proffil o ofal preswyl plant ar draws awdurdodau lleol a darpariaeth y sector preifat. Roedd y gwaith ymchwil yn dangos nad oedd y sylfaen dystiolaeth, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau, yn gryf a bod angen i ddarparwyr wella cysondeb wrth gasglu data. **Gofynnwyd i Cordis Bright ystyried gwahanol fodelau gofal preswyl, ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Daeth eu hadroddiad i'r casgliad, er nad oes un model unigol â thystiolaeth ddigonol i gefnogi symudiad cyffredinol i'w fabwysiadu, bod yna elfennau cyffredin a ddylai ymddangos mewn unrhyw fodel sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru.** Mae Cordis Bright a Chonsortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru wedi cynnal gweithdai ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr o'r sector preifat er mwyn rhannu'r canfyddiadau hyn a helpu i ddatblygu capasiti yn y sector gofal preswyl.

Roedd proffil gofal preswyl yn amlygu pryder am y diffyg darpariaeth frys neu argyfwng, yn cynnwys remand, a gofal preswyl i blant sydd â'r anghenion mwyaf. Gofynnir i ranbarthau ystyried comisiynu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud cais am gyllid cyfalaf a refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi gwaith datblygu dulliau newydd. O fis Ebrill 2019, mae'r Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru wedi cyflwyno fframwaith hyblyg newydd ar gyfer gofal preswyl wedi'i gomisiynu gan y sector preifat, a ddylai annog newidiadau wedi'u cynllunio i'r ffordd y darperir gwasanaethau.

Hefyd, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi comisiynu canllawiau arfer da ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal a thrawsffiniol, ac adroddiad ar leoliadau brys ar gyfer plant sydd wedi'u trosglwyddo i lety awdurdodau lleol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, neu sydd ar remand. Mae is-grŵp wedi'i sefydlu i ystyried lleoliadau remánd a Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n aros dros nos yn y ddalfa.

## Beth yw'r heriau mwyaf ar hyn o bryd?

**Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gymryd camau i sicrhau bod ganddynt ddigon o lety i ddiwallu anghenion y plant sy'n derbyn gofal ganddynt ('dyletswydd digonolrwydd').** Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru wasanaeth maethu mewnol ac mae rhai'n darparu llety preswyl mewnol. Mae un yn darparu gwasanaeth llety diogel. Mae awdurdodau lleol yn comisiynu gofal maeth a phreswyl gan ddarparwyr preifat a sefydliadau

gwirfoddol hefyd. Mae’r Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau comisiynu lleoliadau rhanbarthol, ond mae angen gwneud rhagor o waith ym maes comisiynu gwasanaethau arbenigol ar lefel ranbarthol.


**Mae angen i ni barhau i weithio gyda’r Fframwaith Maethu Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn gyffredinol.** Mae hyn yn cynnwys tair elfen o bwys sy’n cynnwys brandio a marchnata i gynyddu capasiti gofalwyr maeth; dull cyffredin o ddarparu gwasanaethau maethu awdurdodau lleol (hyfforddiant, cymorth proffesiynol, dogfennau polisi a llawlyfrau) a chynhyrchu achosion busnes sy’n edrych ar oblygiadau adnoddau elfennau penodol yn y rhaglen waith a’r seilwaith sydd ei angen fel sail i’r strategaeth gyffredinol (yn cynnwys cysoni ffioedd a lwfansau awdurdodau lleol).

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dull strategol cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau i blant sy’n derbyn gofal.** Mae’r angen am hyn wedi’i amlygu mewn sawl fforwm ac adroddiad. Mae hyn yn cynnwys adroddiad yr Adolygiad o Argyfwng Gofal, gwaith a gomisiynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant, ac yn fwy diweddar gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei adroddiad *‘Plant a Phobl Ifanc sydd wedi bod mewn Gofal’*.

**Mae aelodau Grŵp Cynghori’r Gweinidog yn helpu i oruchwylio a chydgysylltu dulliau cenedlaethol a rhanbarthol sy’n datblygu o gynllunio a chomisiynu lleoliadau mewn gofal maeth, mabwysiadu a phreswyl.** Mae angen i’r pwyslais fod ar ddull systemau cyfan yn awr sy’n blaenoriaethu gwaith partneriaeth, hyblygrwydd a chysoni gweithgarwch ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae is-grŵp ar lety diogel wedi bod yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu gofal preswyl i blant a phobl ifanc ar ben uchaf y continwwm angen. Gan amlaf maent yn dangos sawl math o ymddygiad peryglus, yn cynnwys hunan-niweidio, bod yn dreisgar at eraill, wedi cael eu hecsbloetio’n rhywiol neu’n cymysgu ag oedolion peryglus. Yn aml, mae diffyg dealltwriaeth, neu wrthod cydnabod, risgiau yn cyd-fynd â hyn. Mae gan lawer o’r plant anhwylderau iechyd meddwl, emosiynol neu ddatblygiadol. Mae CASCADE, Prifysgol Caerdydd wedi cyhoeddi adroddiad ar brofiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy’n derbyn Gorchmynion Llety Diogel. Yr angen dybryd yw cael amgylcheddau diogel a sefydlog i’r bobl ifanc hyn wrth i ymyriadau therapiwtig gael eu cyflwyno. Y consensws sy’n datblygu yw bod angen datblygu’r ddarpariaeth hon ar sail ranbarthol ac amlasiantaeth, ond mae hon yn dasg gymhleth iawn. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i ddeall sut y gellir cyflawni hyn yn ymarferol.

**Mae rhaglen Gwella Canlyniadau I Blant yn ceisio helpu awdurdodau lleol i gael lleoliadau addas ac amserol i’r plant a’r bobl ifanc sy’n derbyn gofal ganddynt ac i sicrhau bod mwy ohonynt yn gallu cael eu lleoli yn nes at adref.**



# 3. Cefnogi plant sy'n derbyn gofal i gael y daith orau bosibl trwy ofal ac i fywyd fel oedolion

## Beth yw'r cefndir?

**Fel rhieni corfforaethol, mae gofyn i awdurdodau lleol helpu pobl ifanc yn eu gofal i symud tuag annibyniaeth mewn ffordd debyg i rieni sydd â phlant yn byw gartref gyda nhw.** Mae darparu cymorth ac arweiniad priodol i berson ifanc yn gynnar yn ei daith tuag at annibyniaeth yn helpu i wella cyfleoedd mewn bywyd. Mae pob oedolyn ifanc angen cymorth a chyfeiriad i'w helpu i gyflawni ei nodau a'i uchelgeisiau. Yn aml, mae'r rhai sy'n gadael gofal yn pontio i fyw'n annibynnol yn gynharach na'r rhan fwyaf o blant ac mewn amgylchiadau anoddach yn aml. Yn aml, maent yn wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu nodau, fel diffyg arian a thai sefydlog. Gall hyn wneud pethau'n anodd iawn iddynt o ran gallu manteisio ar addysg uwch, prentisiaeth neu gyfleoedd gwaith.

Mae'n rhaid i wasanaethau cymdeithasol, budd-daliadau lles, darparwyr hyfforddiant, adrannau tai, iechyd ac addysg gydweithio i gynllunio symudiad pob person ifanc at annibyniaeth. Dylent weithredu ac ymateb yn fuan pan fo cynlluniau'n newid neu rywbeth yn mynd o'i le. **Fel y dangoswyd gan waith a wnaed gan y Comisiynydd Plant gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, mae canlyniadau da yn cael eu cyflawni**. Rydym yn gweld mwy o weithredu ar y cyd i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd prentisiaeth, mwy o opsiynau llety, gwybodaeth glir a chymorth ariannol, cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael gofal i ddatblygu a monitro'r cymorth a gynigir iddynt, a ffyrdd o leihau tlodi ymysg y rhai sy'n gadael gofal. Mae angen i'r enghreifftiau hyn ddod yn arfer safonol yng Nghymru.

## Beth ydym wedi'i wneud i ymateb?

**Cyfleoedd ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a phrentisiaethau.** Dyrannwyd £625, 000 o gyllid i awdurdodau lleol fel y gallant sefydlu neu wella cynlluniau sy'n gweithredu ar y sail y dylai'r rhai sy'n gadael gofal gael eu gweld fel rhan o'r 'busnes teuluol' ac y dylid cynnig hyfforddiant a chyfleoedd gwaith iddynt o fewn gweithlu'r cyngor ei hun. Mae'r hawl i gael cynghorydd personol wedi'i ymestyn i'r rhai hyd at 25 oed, diolch i fuddsoddiad o £1 miliwn, er mwyn eu cefnogi gyda'r pontio hwn.

**Tai ac incwm** Mae awdurdodau lleol yn darparu llety priodol pan fydd ar gael ond mae heriau yn bodoli hefyd. Mae awdurdodau lleol yn disgrifio cysylltiadau agos iawn â chydweithwyr ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol a thai, yn cynnwys trefniadau asesu a gweithio ar y cyd, Ers mis Ebrill 2016, mae gan bobl ifanc yng Nghymru hawl i aros gyda'u teuluoedd maeth ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed o dan gynllun o'r enw *Pan Fydda I'n Barod*. Mae Voices from Care wedi llwyddo gyda chais i'r Esme Fairburn Foundation hefyd ar gyfer prosiect i werthuso profiad pobl ifanc o 'Pan Fydda I'n Barod' a'i effaith ar eu canlyniadau llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cronfa Dewi Sant, gwerth £1 miliwn, i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i'r rhai sy'n gadael gofal fel y gallant fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn eu helpu i bontio'n llwyddiannus tuag at fyw'n annibynnol a bywyd llwyddiannus fel oedolion. Yn 2017/18, derbyniodd bron i 2,000 o bobl ifanc arian o'r gronfa. Mae'r gronfa hon wedi'i dyblu ar gyfer 2019/20. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol hefyd i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal o dalu'r Dreth Gyngor; daeth hyn yn gyfraith ym mis Ebrill 2019, ac mae'n gam mawr ymlaen yn ein gwaith i gefnogi pobl ifanc sy'n pontio tuag at annibyniaeth.

Drwy'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant, rydym yn parhau i ystyried ffyrdd o gefnogi pobl ifanc i fod yn annibynnol. Darparwyd cyllid at y diben hwn mewn sawl prosiect. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhaglen Sgiliau i Fyw, Gweithredu dros Blant. Mae Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar y Cyd wedi'i sefydlu er mwyn datblygu dewisiadau llety ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal ac atal digartrefedd ymysg pobl ifanc.

## Beth yw'r heriau mwyaf?

**Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn ystyried ystod o ddewisiadau llety addas ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal,** trwy Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar y Cyd newydd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant wedi comisiynu adroddiad ar gynlluniau ledled y DU sy'n darparu llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal, a bu Voices from Care yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ar eu safbwyntiau a'u profiadau o gymorth pontio wrth symud o ofal preswyl i fyw'n annibynnol. Eu hargymhellion oedd:

- canolbwyntio mwy ar lesiant a chymorth emosiynol, yn ogystal â chymorth ymarferol ar gyfer annibyniaeth;
- mwy o bwyslais ar gymorth, cyngor ac anogaeth gan gymheiriaid;
- opsiynau hyblyg, arafach a graddol tuag annibyniaeth.

Yr her fydd datblygu nid yn unig dull amlasiantaeth sy'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau tai a digartrefedd, cymorth addysg a chyflogaeth ond hefyd fframwaith cymorth ar sail pontio i annibyniaeth sy'n cynnig dewis a rheolaeth wirioneddol i'r rhai sy'n gadael gofal.

# Beth sydd wedi bod yn digwydd?

**FFEITHIAU A FFIGURAU**

## Mesurau perfformiad meintiol Gwasanaethau Plant 2018-19*

| % | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Canran yr asesiadau a gwblhawyd i blant o fewn amserlenni statudol | 88 | 89 |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn | 10.5 | 9.6 |
| Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 60.2 | 58.3 |
| Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 9.5 | 10.9 |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn | 9.6 | 9.2 |
| Canran yr holl rai sydd wedi gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal | 51.4 | 53.5 |
| Canran y rhai sydd wedi gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn | 9.4 | 11.5 |

# Beth sydd wedi bod yn digwydd?

**FFEITHIAU A FFIGURAU**

## Gwybodaeth

**Buddsoddiad o £15 miliwn** wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru dros ddwy flynedd fel cyllid ychwanegol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gryfhau cymorth i deuluoedd agored i niwed sydd mewn perygl o fynd i'r system ofal a darparu gwasanaethau therapiwtig ychwanegol.

**£2.3 miliwn o gyllid** wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru yn 2019-20 i helpu i gryfhau cymorth ar gyfer mabwysiadu, i atal plant rhag mynd i ofal eto a lleihau'r amser maent yn ei dreulio yn disgwyl i adael gofal drwy fabwysiadu.

**£625,000** wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol i annog mwy o ddefnydd o gynlluniau prentisiaeth a hyfforddeiaeth i'r rhai sy'n gadael gofal.

**£1 miliwn** i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru i helpu i sefydlu capasiti ychwanegol ar gyfer cynadleddau teuluol ac ail-uno teuluoedd.

Dros **700 o deuluoedd** yn gweithio gyda Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd bob blwyddyn.

Dros **1,900** o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal wedi'u cefnogi hyd yn hyn drwy'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi sy'n werth £1 miliwn.

Bron i **700** o blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ar draws chwe awdurdod lleol wedi cymryd rhan yn arolwg Bright Spots am eu llesiant. Mae arolwg plant yn cael ei gomisiynu ar lefel genedlaethol i gefnogi gweithredu'r fframwaith perfformiad plant.

Mae gan **bawb sy'n gadael gofal** hawl yn awr i gael ei eithrio o dalu'r dreth gyngor.

Mae Safonau Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol ac Ymwelwyr Annibynnol wedi'u datblygu, i ddarparu cysondeb mewn darpariaeth gwasanaethau ledled Cymru.

Mae Cod Ymarfer Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig wedi'i ddatblygu.

# Beth sydd wedi bod yn digwydd?

**FFEITHIAU A FFIGURAU**

## Gwybodaeth

Mae o leiaf 244 o deuluoedd ledled Cymru wedi defnyddio'r **rhaglen Adlewyrchu**, sydd â'r nod o leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal drwy dorri'r cylch o feichiogrwydd ailadroddus ac achosion llys ailadroddus.

Mewn arolwg sampl, roedd gan **71% o blant sydd wedi bod mewn gofal** ganlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol bedair i bum mlynedd ar ôl gorchymyn gofal terfynol. Roedd gan y plant hyn leoliadau sefydlog ac roeddynt yn derbyn addysg dda. Fodd bynnag, roedd llawer ohonynt yn dal i fod angen cymorth gyda'u haddysg, iechyd a llesiant.

Mae'n rhaid cynnig Cynghorydd Personol i **bawb sy'n gadael gofal** hyd at 25 oed, waeth beth fo'r amgylchiadau. Mae 20 o Gynghorwyr Personol ychwanegol wedi'u recriwtio gyda thros 500 o bobl ifanc yn derbyn y cynnig.

Mae gwariant refeniw'r gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal wedi **codi dros 20%** ers 2011-12. Mae'r gyfran fwyaf yn cael ei gwario ar wasanaethau maethu (45%), yna gofal preswyl (25%) a gwasanaethau cymorth gadael gofal (8%).

Yn 2018, roedd gan gyfran llawer uwch o blant wedi'u mabwysiadu (61%) **ddeunydd taith bywyd**, elfen allweddol i'w helpu i ddeall a gwneud synnwyr o'u hanes personol.

Cyflwynwyd **cynllun Llesiant Maethu (Addysgeg Gymdeithasol)** yn llwyddiannus ledled Cwm Taf ac mae'r cynllun peilot hwn yn cael ei ymestyn i Gaerdydd a'r Fro cyn ei weithredu'n genedlaethol.

* Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fframwaith mesur perfformiad newydd i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad polisi cenedlaethol; i gefnogi awdurdodau lleol i ddysgu, cynllunio a gwella; galluogi pobl i ddeall ansawdd gwasanaethau cymdeithasol a darparu gwybodaeth i'r drefn reoleiddio ac arolygu yng Nghymru. Bydd y cod ymarfer newydd a'r fframwaith perfformiad a gwella cysylltiedig yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020 ac yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2020-21 a thu hwnt. Yn ystod y cyfnod pontio, ar sail Cymru gyfan rydym yn dibynnu'n bennaf ar ystadegau arbrofol sy'n deillio o ffurflenni Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd rhai o'r mesurau perfformiad meintiol wedi'u casglu o'r blaen cyn gweithredu'r Ddeddf; fodd bynnag, ni ellir cymharu canlyniadau gan fod newidiadau wedi'u gwneud i ddiffiniadau a chyfrifiadau.

Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol: **hiips://statscymru.llyw.cymru/v/G01H**

Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol: Ebrill 2018 i Mawrth 2019: hiips://llyw.cymru/plant -syn-derbyn-gofal-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2018-i-mawrth-2019?_ga=2.1745590.608535814.1573468954-1668039129.1568733324

Plant sy'n derbyn gofal a chymorth: Ebrill 2017 i Mawrth 2018: hiips://llyw.cymru/plant -syn-derbyn-gofal-chymorth-ebrill-2017-i-mawrth-2018?_ga=2.6070836.608535814.1573468954-1668039129.1568733324

## Gallwch gael rhagor o wybodaeth am waith y Rhaglen Gwella Canlyniadau yn:

hiips://gofalcymdeithasol.cymru/gwella -gwasanaethau/rhaglen-gwella-canlyniadau-i-blant